**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**National Assembly for Wales**
Culture, Welsh Language and Communications Committee

Kirsty Williams AC

Y Gweinidog Addysg

Llywodraeth Cymru

21 Mawrth 2019

Annwyl Kirsty,

**Addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion**

Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn craffu ar y drefn o ran addysgu hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru mewn ysgolion.

Yn ystod haf 2018, cynhaliwyd pleidlais gyhoeddus yn gwahodd aelodau o'r cyhoedd i ddewis pwnc ein hymchwiliad nesaf. Cymerodd bron 2,500 o bobl ran yn y bleidlais a dewisodd 44 y cant ohonynt y pwnc hwn.

Ym mis Chwefror, cynhaliwyd digwyddiad i glywed gan arbenigwyr, ymarferwyr a phobl eraill sydd â diddordeb yn y mater hwn. Cafwyd llawer o sylwadau ar bwysigrwydd addysgu hanes Cymru i roi ymdeimlad o hunaniaeth i blant. Er ein bod yn glir bod gofynion i addysgu agweddau ar hanes Cymru yn y cwricwlwm ac o fewn meysydd llafur arholiadau, roedd yn amlwg bod gweithwyr proffesiynol o'r farn bod y sefyllfa'n dra wahanol ar lawr gwlad. Mae hyn yn amlwg yn bryder mawr ac yn fater y teimlwn y mae'n rhaid ei ddatrys ar adeg pan fo'r cwricwlwm newydd yn cael ei ddatblygu a'i weithredu.

Roedd y rhai a ddaeth i'r digwyddiad yn teimlo'n gryf na ddylai Llywodraeth Cymru golli'r cyfle i wella'r drefn o ran addysgu hanes Cymru yn sgil yr adolygiad o'r cwricwlwm. Roeddent yn pryderu y byddai'r diffyg rhagnodi yn y cwricwlwm newydd drafft yn gam yn ôl ar gyfer addysgu yn y maes hwn.

Bydd y Pwyllgor yn parhau â'i ymchwiliad drwy geisio casglu tystiolaeth i asesu i ba raddau y mae hanes Cymru yn cael ei ddysgu ar lefel TGAU a Safon Uwch a thrwy graffu ar y cwricwlwm newydd drafft unwaith y caiff ei gyhoeddi.

Gan ei bod yn amlwg bod diddordeb mawr gan y cyhoedd y drefn o ran addysgu hanes Cymru, roedd y Pwyllgor am roi gwybod i chi am y pryderon a fynegwyd yn y digwyddiad a gofyn am eich barn gychwynnol ar rai o'r pwyntiau a godwyd.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi gwybodaeth i ni am y canlynol:

- yr amserlen ar gyfer gwaith y cwricwlwm newydd drafft. Beth yw'r camau nesaf yn dilyn y cyhoeddiad ym mis Ebrill?
- Beth y mae'r rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon yn ei gynnwys yn benodol ar gyfer addysgu hanes Cymru?
- A ydych chi'n fodlon ar y deunyddiau sydd ar gael o ran addysgu hanes Cymru?
- O ystyried bod y manylebau TGAU a Safon Uwch diweddaraf yn cynyddu faint o gynnwys y cwricwlwm sy'n benodol i Gymru, a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth am yr amser a dreulir yn addysgu hanes sy'n benodol i Gymru yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 ac ar lefel TGAU a Safon Uwch?

Rwyf wedi ysgrifennu at CBAC i ofyn pa gyrsiau Datblygiad Proffesiynol a Pharhaus a ddarperir ganddo ar y pwnc hwn ac i geisio ei gyngor ar y graddau y mae hanes Cymru yn cael ei addysgu ar lefel TGAU a Safon Uwch.

Rwyf wedi ysgrifennu at Estyn hefyd i ofyn pa wybodaeth sydd ganddo a allai helpu i lywio ymchwiliad y Pwyllgor.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau hyn erbyn 24 Ebrill er mwyn llywio ein gwaith.

Yn gywir,

Bethan Sayed.

Bethan Sayed

**Cadeirydd y Pwyllgor**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KW/05679/19
Bethan Sayed AC
Cadeirydd
Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

24 Ebrill 2019

Annwyl Bethan,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Mawrth mewn perthynas ag Ymchwiliad y Pwyllgor i addysgu hanes a diwylliant Cymru mewn ysgolion.

Roedd eich adborth o'r digwyddiad i randdeiliaid a gynhaliwyd gennych ym mis Chwefror yn ddiddorol. Dangosodd fod y rheini a fynychodd y digwyddiad hwnnw yn gadarn o'r farn na ddylem golli'r cyfle i wella'r ffordd y caiff hanes Cymru ei addysgu wrth adolygu'r cwricwlwm, ac roedd pryder nad oedd llawer o ragnodi i'w weld yn y drafftiau a ddosbarthwyd.

Ymatebaf ar wahân i bob un o'r cwestiynau penodol a ofynnwyd gennych:

**Yr amserlen ar gyfer gwaith y cwricwlwm newydd drafft - Beth yw'r camau nesaf yn dilyn ei gyhoeddi ym mis Ebrill?**

Bydd fframwaith Cwricwlwm i Gymru 2022 ar gael er mwyn rhoi adborth arno o 30 Ebrill hyd at 19 Gorffennaf 2019. Byddwn yn ymgysylltu'n helaeth â'r proffesiwn addysgu a rhanddeiliaid ehangach drwy gydol y cyfnod adborth. Mae'r consortia rhanbarthol, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau hygyrch yn ystod mis Mai a mis Mehefin a fydd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'r holl ymarferwyr ledled Cymru ymgysylltu â'r fframwaith cwricwlwm drafft.

Caiff yr adborth a gawn ei ddefnyddio gan yr ymarferwyr sy'n cyd-lunio'r cwricwlwm newydd gyda ni er mwyn mireinio'r canllawiau. Bydd yr ymarferwyr yn ymgymryd â'r gwaith mireinio hwn fel rhan o Grwpiau Gwella Ansawdd.

Wedyn, caiff y fersiwn o'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i mireinio ei chyhoeddi yn ystod mis Ionawr 2020. Rydym yn bwriadu cyflwyno'r gofyniad i addysgu'r cwricwlwm newydd ac i roi'r trefniadau asesu newydd ar waith yn raddol, gan ddechrau ym mis Medi 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Beth mae'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) yn ei gynnwys yn benodol o ran addysgu hanes Cymru?**

Ar hyn o bryd, mae angen i athrawon dan hyfforddiant wybod am bump agwedd y Cwricwlwm Cymreig (diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol) a phedair agwedd ar Gymru, Ewrop a'r Byd (gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol) fel y maent yn berthnasol i'r ystod oedran y maent yn hyfforddi i'w haddysgu. Dylai athrawon chwilio am gyfleoedd perthnasol ac ystyrlon er mwyn gallu rhoi astudiaethau'r dysgwyr o fewn cyd-destun Cymreig lle bynnag y bo hynny'n ddymunol, yn bosibl ac yn gynhyrchiol.

Yn y dyfodol, bydd angen i bob athro dan hyfforddiant fod yn gyfarwydd â'r chwe maes dysgu a phrofiad (MDPh) newydd, a'r pedwar diben y mae'r cwricwlwm newydd yn anelu sicrhau y bydd pob dysgwr yn eu cyflawni. Mae'n rhaid i'n partneriaethau AGA achrededig newydd ddylunio a darparu cyrsiau sy'n ategu pedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru ac sy'n ymdrin â'r chwe maes dysgu a phrofiad (MDPh), gan gynnwys y dyniaethau, er mwyn datblygu athrawon ar gyfer y dyfodol a all ddiwallu anghenion pob dysgwr.

Bydd athrawon unigol, gan gynnwys arbenigwyr pwnc megis Haneswyr mewn ysgolion uwchradd, yn defnyddio'r gwahanol Feysydd Dysgu a Phrofiad wrth iddynt gynllunio. Dylid annog athrawon i weithio'n greadigol ac yn gydweithredol ar draws ffiniau pwnc, yng nghyd-destun pedwar diben y cwricwlwm, gan anelu at osgoi cyfyngu eu haddysgu o fewn pynciau penodol.

Bydd astudiaethau pwnc yn cynnwys gwybodaeth am gynnwys sy'n briodol ar gyfer cyfnod oedran neu arbenigedd pwnc penodol yr athrawon dan hyfforddiant, gan gynnwys cysyniadau allweddol, sylwedd a strwythur y pwnc, yn ogystal â gwybodaeth am gynnwys addysgegol, sy'n briodol ar gyfer y cyfnod oedran neu'r arbenigedd pwnc.

**A ydych yn fodlon â'r deunyddiau addysgu sydd ar gael ar gyfer hanes Cymru?**

Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn cefnogi pynciau ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys Hanes, drwy hyrwyddo'r defnydd o ddulliau addysgu a dysgu creadigol. Mae'r buddsoddiadau yn cynnwys grantiau'r Rhyfel Byd Cyntaf ac 'Ewch i Weld', adnoddau ar y Rhyfel Byd Cyntaf a chyllid i greu adnoddau i gefnogi'r cymhwyster TGAU Hanes newydd - sydd bellach yn cynnwys gwell ffocws ar Hanes Cymru a'r persbectif Cymreig.

Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o ddeunyddiau addysgu ar gael ar lwyfan dysgu digidol Cymru - Hwb i ysgolion ac athrawon eu defnyddio, ar gyfer pob cyfnod allweddol.

Ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, er mwyn meithrin Gwybodaeth a Dealltwriaeth dysgwyr o'r Byd, ceir adran gyfan o ddeunyddiau sy'n anelu'n benodol at archwilio cymunedau lleol dysgwyr.

Ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3, ceir deunyddiau ar gyfer astudio'r persbectif Cymreig mewn perthynas ag amrywiaeth o gyfnodau a digwyddiadau hanesyddol, hanes Cymru, y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd, ac effaith digwyddiadau byd-eang mawr yng Nghymru. Gallwch weld yr holl adnoddau sydd ar gael ar Hwb drwy bob un o'r dolenni hyn i Hwb: Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3.

Yn ogystal, ceir adnoddau ar gyfer pynciau ac eithrio hanes, er mwyn ystyried diwylliant Cymru. Er enghraifft, astudio beirdd o Gymru mewn gwersi Saesneg neu Gymraeg.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae canllawiau CBAC i ymarferwyr er mwyn helpu i addysgu'r cymhwyster TGAU yn nodi y dylid cynnwys cyfran sylweddol o hanes Cymru yn y cynnwys gofynnol ar gyfer y fanyleb yn Unedau 1 a 3 a rhoddir cyfarwyddyd i athrawon gynnwys

enghreifftiau perthnasol a phriodol o fewn eu gwaith addysgu sy'n dangos persbectif Cymreig ac effaith y datblygiadau penodedig ar Gymru.

Ceir cyfleoedd i adeiladu ar hyn mewn adnoddau sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd, gan gynnwys adnoddau sy'n integreiddio materion ar draws Meysydd Dysgu a Phrofiad, ar gyfer y cwricwlwm newydd.

**O ystyried bod y manylebau TGAU a Safon Uwch diweddaraf yn gwella'r cynnwys sy'n benodol i Gymru a geir yn y cwricwlwm, a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth am y gyfran benodol o amser a gaiff ei threulio yn addysgu Hanes Cymru yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3, 4 ac ar lefel TGAU a Safon Uwch?**

Nid oes gennym wybodaeth am y gyfran benodol o amser a gaiff ei threulio yn addysgu hanes Cymru yn ystod yr amrywiol gyfnodau allweddol. Fodd bynnag, gallaf amlinellu'r gofynion canlynol o ran cynnwys sy'n benodol i Gymru mewn perthynas â chymwysterau.

Mae'r fanyleb TGAU ar gyfer Hanes yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle naturiol i wneud hynny yn deillio o'r deunydd pwnc ac os byddai ei gynnwys yn cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u hamgylch fel dinasyddion Cymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

Mae canllawiau TGAU Hanes CBAC i ymarferwyr yn nodi y dylid cynnwys cyfran sylweddol o hanes Cymru yn y cynnwys gofynnol ar gyfer y fanyleb yn Unedau 1 a 3 a rhoddir cyfarwyddyd i athrawon gynnwys enghreifftiau perthnasol a phriodol o fewn eu gwaith addysgu sy'n dangos persbectif Cymreig ac effaith y datblygiadau hyn ar Gymru.

Yn benodol, bydd Unedau 1 a 3 yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at effaith newid hanesyddol ar Gymru neu ar bersbectif Cymreig. Uned 1 y cymhwyster TGAU yw ‘Astudiaethau Manwl – Cymru a'r persbectif ehangach' ac mae Uned 3 yn cynnig dewis o bedair Astudiaeth Thematig sy'n ymdrin ag agwedd benodol ar hanes yn eang, gyda phwyslais penodol ar yr effaith ar Gymru – a phobl Cymru.

Ceir rhestr o bynciau awgrymedig ar gyfer y pedair thema yn y canllawiau addysgu ac mae'r themâu yn fwriadol yn ddigon eang i sicrhau bod agweddau ar hanes Cymru yn berthnasol i un Uned neu fwy. Er enghraifft, ar gyfer themâu 3B - Newidiadau ym maes Iechyd a Meddygaeth, tua 1340 hyd heddiw a 3C - Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw, awgrymir y gellid astudio gwaith a rôl Betsi Cadwaladr o dan y ddwy thema.

Mae'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster UG a Safon Uwch, a gyflwynwyd i'w haddysgu gyntaf yn 2015, hefyd yn cynnwys opsiynau Hanes Cymru o dan bob Uned addysgu. Mae'r fanyleb yn cynnwys cyfanswm o bump uned, dwy uned UG a thair uned U2. Rhaid i'r dysgwyr ddewis un Uned ar hanes Cymru a Lloegr i'w hastudio ar lefel UG a Safon Uwch.

Mae'r awgrymiadau ar gyfer pynciau i'w hastudio yn cynnwys y canlynol: Terfysgoedd Rebeca, Mudiad y Siartwyr, effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar ddiwydiant a bywyd yng Nghymru a Lloegr, Clymblaid Lloyd George 1916-1922 neu newid gwleidyddol yng Nghymru; dirywiad crefydd yng Nghymru; agweddau cyfnewidiol tuag at y Gymraeg a diwylliant Cymru; newid cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol yng Nghymru 1918-1980.

O ran y cwricwlwm newydd, ni chaiff unrhyw elfennau o ran amserlennu neu drefniadaeth ysgolion eu rhagnodi.

Gobeithio fy mod wedi llwyddo i egluro'r holl bwyntiau a godwyd gennych.

Yr eiddoch yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education